***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 870

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004

**Cyfyngiad cyffredinol ar dreuliau'r refferendwm**

**6.**—(1) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 7—

golyga "trefnydd yr ymgyrch" ("*campaign organiser*") yr unigolion neu'r corff yr achosir treuliau iddynt neu ar eu rhan yn y refferendwm (gan gynnwys y treuliau yr ymdrinnir â hwy megis petaent wedi eu hachosi) o ran ymgyrch refferendwm;

golyga "ymgyrch refferendwm" ("*referendum campaign*") ymgyrch a gynhelir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu sicrhau canlyniad neilltuol parthed y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm;

golyga "treuliau refferendwm" ("*referendum expenses*") y treuliau a achosir gan unigolyn neu gorff neu'r hwn a achosir ar ei ran yn ystod y refferendwm at ddibenion y refferendwm o ran unrhyw un o'r materion a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 o'r Rheoliadau hyn, fel y'u darllenir gyda pharagraff 2 o'r Atodlen honno;

golyga "cyfyngiadau treuliau'r refferendwm" ("*referendum expenses limit*") y cyfanswm o £2,000 a'r cyfryw swm a geir o luosogi nifer y cofnodion yn y gofrestr berthnasol â phum ceiniog;

golyga "at ddibenion y refferendwm" ("*for referendum purposes*") —

(a) o ran cynnal neu reoli unrhyw ymgyrch a gynhelir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu sicrhau canlyniad neilltuol parthed y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm; neu

(b) fel arall o ran hyrwyddo neu sicrhau canlyniad o'r fath; a

golyga "y gofrestr berthnasol" ("*the relevant register*") y gofrestr (neu'r cofrestrau) etholwyr llywodraeth leol a gyhoeddwyd dan adran 13 (cyhoeddi cofrestrau) o Ddeddf 1983 (fel y'i dirprwywyd) ar ôl terfyn y canfasio a gynhaliwyd dan adran 10 o'r Ddeddf honno yn yr union flwyddyn a ragflaenodd y flwyddyn y cynhelir y refferendwm ynddi, sydd mewn grym yn ardal yr awdurdod lleol sy'n cynnal y refferendwm neu'r hwn y cynhelir y refferendwm ar ei gyfer (ni waeth a yw'r bobl y mae'r cofnodion hynny'n ymwneud â hwy'n gymwys i bleidleisio yn y refferendwm ai peidio).

(2) Ni fydd cyfanswm y treuliau a achosir yn ystod y refferendwm, neu'n unol â rheoliad 7 y rhai yr ymdrinnir â hwy fel petaent wedi eu hachosi, gan unigolyn neu gorff neu ar eu rhan, yn fwy na chyfyngiad treuliau'r refferendwm.

(3) Os achosir treuliau yn y refferendwm sy'n fwy na chyfyngiad treuliau'r refferendwm, yna bydd rhywun a wyddai neu a ddylai fod wedi gwybod o fewn rheswm y byddai'r cyfyngiad hwnnw'n cael ei dorri, neu rywun sydd, a hynny heb esgus rhesymol, yn awdurdodi rhywun arall i dorri'r cyfyngiad hwnnw, yn euog o drosedd.

(4) Os hysbysir y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus fod trosedd dan baragraff (3) wedi ei hachosi, bydd dyletswydd ar y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i wneud pa bynnag ymholiadau a chyflwyno pa bynnag erlyniadau ag y bydd amgylchiadau'r achos yn eu teilyngu ym marn y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

(5) Os profir bod trosedd wedi ei chyflawni dan baragraff (3) a bod honno wedi ei chyflawni gan gorff corfforedig gyda chaniatâd neu gydgynllwyn cyfarwyddydd, rheolydd, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb o'r corff corfforedig, neu y gellid ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar eu rhan, neu unrhyw un arall a honna weithredu yn rhinwedd y fath swydd, bydd yr unigolyn hwnnw, ynghyd â'r corff corfforedig yn euog o'r drosedd honno a byddant yn agored i gael eu dwyn ger bron llys a'u cosbi'n briodol.

(6) Bydd unrhyw un a fydd yn cyflawni trosedd dan baragraff (3) yn agored —

(a) o gael collfarn ddiannod, i ddirwy nid mwy na'r uchafswm statudol neu garchar am gyfnod nid hwy na chwe mis, neu'r ddau; neu

(b) o gael collfarn ar dditiad, i ddirwy neu garchar am gyfnod nid hwy na blwyddyn, neu'r ddau.

(7) Nid oes dim ym mharagraff (2) yn effeithio ar hawl unrhyw gredydydd na wyddai pan achoswyd y draul fod y draul honno'n groes i'r paragraff hwnnw.